# Cofnodion Cyfarfod 7/9/2023

**Presennol** Y Maer Eifion Roberts, Y Dirprwy Faer Tony Parry, Jacqueline Allen, Dilys Evans, Rhys Evans, Fiona Hopkins, Eluned Jones, Clare Mackintosh, Moira Mai, Eric Williams, John C Williams

Cynghorydd Dilwyn Morgan, Cyngor Gwynedd

Lis Puw *(Clerc)*.

**Ymddiheuriadau:** Sion McGuiness

**Cyhoedd:** Neb yn bresennol.

1. **Y Maer:** Dywedodd y Maer iddo gymryd rhan yn yr ymgyrch seiclo a drefnwyd gan y Clwb Badminton i godi arian ar gyfer Rheilffordd Llyn Tegid . Gwnaeth gyfraniad ariannol i'r ymgyrch ac i Sioe Y Bala. Diolchodd i Gwmni Cydweithredol Corwen am gyfraniad tuag at bolion fflag i'w gosod tu allan i fusnes yn Y Bala.

   Darllenodd lythyr ymddiswyddiad y Clerc a diolchodd iddi am ei gwaith yn ystod y 10 mlynedd diwethaf. Ategwyd hyn gan aelodau eraill o'r Cyngor a'r Cynghorydd Dilwyn Morgan. Cytunwyd i'r Is-bwyllgor Cyllid a'r Dirprwy Faer gyfarfod ar fyrder i fynd ati i hysbysebu am ac apwyntio Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol newydd.

2. **Buddiant:** Nid oedd datganiadau o fuddiant.

3. **Cofnodion:** Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 6/7/23.

4. **Materion y Clerc/Cofnodion:**

   i. Cymdeithas Chwaraeon Penllyn: oherwydd ansicrwydd am y sefyllfa berchnogaeth, ni wnaeth y Clerc anfon at y Gymdeithas. Anfonwyd ffurflen adolygu concrid (RAAC) at Jacqui Allen i'w gyflwyno i'r swyddogion.

   ii. Lleoli'r llyfrau o'r hen Banc Barclays: cytunwyd i'w cynnig i arddangosfa Siarter 1324 a phenderfynu eu lleoliad yn dilyn hynny.

   iii. Drafft 2 Rheolau Sefydlog (seiliedig ar fodelau SLCC a Un Llais Cymru): cytunwyd gohirio ei fabwysiadu hyd nes y bydd aelodau wedi cymharu gyda'r gwreiddiol a ddosbarthwyd gyntaf ym mis Mai.

5. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd Adroddiad Dilwyn Morgan, Cynghorydd Gwynedd.

   <u>Y Stryd Fawr:</u> Soniodd am ymweliad y Tim Tacluso yr wythnos nesaf pryd y byddant yn canolbwyntio ar y Stryd gan gynnwys, tynnu sticeri Covid, glanhau arwyddion, paentio

hysbysfyrddau duon, ystyried y biniau a'u lleoliadau ac ail-leoli meinciau. Bydd yn ceisio trefnu gwagio'r biniau yn amlach. Nodwyd problemau eraill yn y dre gan gynnwys y bin wrth y Clwb Rygbi. Ychwanegwyd paentio'r polion fflag at y rhestr o waith sydd angen ei wneud.

Ni chafwyd ymateb gan Brif Swyddfa Bargain Booze er anfon sawl tro. Nid oes cais cynllunio wedi mynd at Barc Cenedlaethol Eryri am fascia newydd. Gofynnwyd i'r Clerc anfon at Bestway i ddweud fod diogelwch y cyhoedd yn y fantol ac y gall fod camau cyfreithiol.

Llwybr Diogel i'r Ysgol: llwyddwyd i gael arian sylweddol i'r prosiect hwn ar ôl blynyddoedd maith o ymgyrchu, ond yn anffodus mae'r Bala mewn perygl o golli'r arian oherwydd problemau cael cefnogaeth y Gymdeithas Chwaraeon. Mynegodd y Cynghorwyr tristwch mawr a siomedigaeth o glywed hyn gan fod perygl mawr i ddiogelwch plant.

Cyllid Cyngor Gwynedd: Mae pob Awdurdod Lleol yn wynebu toriadau enfawr a dwys i wasanaethau oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol, ac mae'n anorfod y bydd toriadau i'r gwasanaethau y gall Cyngor Gwynedd eu cynnig hefyd.

6. **Un Llais Cymru (Meirionnydd)** Adroddodd y Maer iddo fynychu ond cael ei siomi nad oedd ddim yn berthnasol i'r ardal hon yn y drafodaeth; nododd na chafodd ei groesawu fel aelod newydd a chafodd y teimlad mai "siop gaeedig" oedd y cyfarfod.

7. **Siarter 1324:** Cafwyd trafodaeth ar y ffordd ymlaen a chytunwyd i lunio is-bwyllgor i wneud y trefniadau cychwynnol. Bydd Tony Parry, John Caradog Williams, Clare Mackintosh Jacqui Allen ac Eric yn cyfarfod yn fuan iawn. Bydd yr is-bwyllgor cyllid yn rhoi canllawiau gwariant i'r Siarter 1324.

   Diolchwyd am e-bost hynod ddiddorol oddi wrth Hywel Davies, Cantref. Mae'n amlwg fod cryn diddordeb yn y dref a thu hwnt.

8. **Is-bwyllgorau:** Derbyniwyd adroddiadau

   i. Nadolig: rheolau trwyddedu newydd wedi cyrraedd. Mae Rhys Evans yn gohebu gyda Penarlag.
   ii. Is-bwyllgor gofalu am a chynnal asedau, gan gynnwys llochesi bws a thaclusrwydd y dref: diolchwyd am yr adroddiad manwl a rhoddwyd y manylion i Cynghorydd Dilwyn Morgan ar gyfer y Tim Tacluso. Mae meinciau ar fin cael eu gosod ac mae mainc Cysgod y Coleg wedi ei thrwsio (heb dderbyn anfoneb gan Noel Lloyd hyd yn hyn).
   iii. Is-bwyllgor Tref Gyfeillgar: yn dilyn digwyddiad ddifrifol yn ddiweddar, bydd yr is-bwyllgor yn chwilio i wella diogelwch yr wtra rhwng Maes y Bronnydd a'r Stryd Fawr.
   iv. Is bwyllgor digwyddiadau a gwella adnoddau i drigolion Y Bala – rhaglen 4 mlynedd: fe fydd Siarter 1324 yn rhan o hwn.

v. <u>Bioamrywiaeth:</u> Lluniodd Rhys Evans gais am grant ar gyfer yr ardd gymunedol a'i chyflwyno i'r Swyddog gweinyddol yn Ysgol Godre'r Berwyn i'w chwblhau. Rhannwyd gwybodaeth am grantiau newydd ar gael i Gynghorau Cymuned a Thref.

vi. <u>Cyllid:</u> cyfarfod yn fuan oherwydd swydd wag y Clerc/Sac, ac hefyd i ystyried terfynau gwario'r Cyngor ar ddigwyddiadau Siarter 1324.

*9.* **Strategaeth Gyfathrebu:**

*i.* Casglwyd gwybodaeth ar gyfer creu grŵp WhatsApp (y Clerc newydd i'w greu)

*ii.* Creu Rota Syrjeri misol: gadawyd ar y bwrdd am y tro gan i'r Cynghorydd Dilwyn Morgan wahodd Cynghorwyr ymuno gydag ef yn ei syrjeris efo'r PCSO.

iii. Derbyniwyd y Polisi a Rheolau ar gyfer Tudalen fb fel Hysbysfwrdd y Cyngor a luniwyd gan Clare Mackintosh a diolchwyd iddi am ei gwaith ac am ei pharodrwydd i ymwneud a hyn.

*10.* **Materion Cynllunio**:

**NP5/53/585A** Addasiadau i dŷ gan gynnwys cyfuno fflat anecs gyda'r prif dŷ, gosod 4 ffenestr to yn y drychiad cefn, ehangu'r gromen cefn presennol, system EWI i waliau allanol a grisiau mynediad newydd Egryn, Heol Ffrydan, Bala. LL23 7RY CYMERADWYO

**NP5/53/490B** Adeiladu estyniad cefn deulawr a ffens terfyn 1.8m o uchder 1 Trem y Ffridd, Y Bala. LL23 7DG CYMERADWYO, gan holi a ydyw uchder y ffens yn mynd i amharu ar weledEdd wrth ddod allan o Trem Ffridd i Heol Tegid.

**NP5/53/128B** Adeiladu gweithdy a storfa Newydd, Ardwyn Bach, 17 Heol y Castell, Y Bala. CYMERADWYO

**11. Materion Cyllid:**

i. Gohebiaeth y Rheolydd Pensiynau: mae'r gwaith o gofrestru wedi ei gwblhau, ond gall y sefyllfa newid ar ôl penodi Clerc newydd.

**ii.** Ystyriwyd y sefyllfa ariannol ddiweddaraf.

**iii.** Nodwyd y derbyniwyd yr ardoll parcio, ad-daliad TAW 2022-23, ail hanner y praesept.
Cymeradwywyd cyfrannu at gynnal a cadw'r toiledau, talu am y gwasanaeth Archwilio mewnol, talu am lanhau'r llochesi (Gorffennaf ac Awst) a chyflog y Clerc (Gorffennaf ac Awst).

iv. Derbyniwyd adroddiad am Gronfa'r Maer: cyfrannwyd at Sioe Y Bala, polion baneri i'r Stryd Fawr (roedd un busnes heb dderbyn polion) ac at y Clwb Badminton (ymgyrch Rheilffordd Llyn Tegid).

**12. Gohebiaeth:** *Yn cynnwys:*

i. Llythyr at y Maer gan y Clwb Badminton yn dweud y casglwyd cyfanswm o £10,712.43.

ii. Cronfa Perchnogaeth Cymunedol – derbyniwyd gwybodaeth fod y gronfa ar agor ar gyfer ceisiadau – nodwyd ei dderbyn a'i rannu i'r Cynghorwyr.
iii. Mabon ap Gwynfor: gwahoddiad i drafod darpariaeth deintyddol ar Teams 11/9/23 am 10.30 – cytunodd Fiona Hopkins i fynychu ar ran y Cyngor.
iv. Mabon ap Gwynfor: gohebiaeth am ddiogelwch yr A494 – nodwyd ei dderbyn a'i rannu i'r Cynghorwyr.
v. Cyngor Gwynedd: ystyried gohebiaeth am Erthygl 4, sef defnydd o dai preswyl - Gadawyd ar y bwrdd oherwydd nid yw'n uniongyrchol berthnasol i ardal Parc Cenedlaethol Eryri ar hyn o bryd.
vi. Cyngor Gwynedd: derbyniwyd gwybodaeth am feysydd parcio ardal Llyn Tegid; mae anawsterau gyda chamerâu ANPR a hawliau gorfodaeth ar hyn o bryd.
vii. Cyngor Gwynedd :Bydd y Tim Tacluso yn Y Bala 11-15 Medi
viii. Cyngor Gwynedd: Derbyniwyd rhybuddion am gau Heol y Castell a Heol Arennig yn yr hydref (ar gyfer gwaith peipiau nwy).
ix. Un Llais Cymru: derbyniwyd rhestr o hyfforddiant Medi a Hydref 2023. Bydd angen bwrw ymlaen i gyflawni'r Cynllun Hyfforddiant.
x. Gwahoddiad **i** Uwchgynhadledd Canol y Dref gan Dyfodol Rhuthun - DYDD MERCHER 20 MEDI '23. Diolchwyd i Jacqui Allen am fynychu.
xi. Nodwyd derbyn gwahoddiad i ddigwyddiad CWMPAS yn Rhuthun 27/9/23
xii. Parcio Heol y Castell (cefn) – derbyniwyd cwyn am anhawster troi mewn oherwydd parcio ar y gornel; anfonwyd ymlaen i sylw Cyngor Gwynedd gan y Clerc.
xiii. Nodwyd derbyn Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsman.
xiv. Cais gan ymwelydd i roi clod i staff y Ganolfan Hamdden yn dilyn damwain – cytunwyd i anfon at y Rheolwr.
xv. HSBC: derbyniwyd gwybodaeth y bydd y gangen ar gau am 3 wythnos ar gyfer uwchraddiad – 18/9/23 – 9/10/23.
xvi. Cytunwyd i ysgrifennu llythyr o gefnogaeth wrth i Ganolfan Henblas geisio am grant i wella Canolfan Bro Tegid.
xvii. RAAC: derbyniwyd cais am wybodaeth am goncrid anwadal gan Lywodraeth Cymru ac fe'i anfonwyd ymlaen at reolwyr a adeiladau'r ystâd gyhoeddus yn y dref.

**13. Cwmni Pum Plwy Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr.

14. **Materion lleol y Cynghorwyr Tref**

i. Tynnodd Eric Williams sylw at yr angen i wella diogelwch wtra Heol Arennig i'r Stryd Fawr. Bydd is-bwyllgor Tref Gyfeillgar yn edrych mewn i'r mater gan mai eiddo preifat ydyw.
ii. Cytunwyd i gais Fiona Hopkins i ysgrifennu at y Swyddog Adfywio Bro i ofyn am i'r Cyngor cael ei gynnwys yn llawn yn nhrafodaethau parthed Cynllun Adfywio'r Bala.